

5 Awst 2020

Annwyl gydweithwyr

Ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, rydym eisiau diolch i chi gyd unwaith yn rhagor am eich ymdrechion anhygoel dros gyfnod argyfwng Covid-19. Trwy eich ymroddiad, angerdd a sgiliau, rydych wedi cadw Caerdydd yn ddiogel, wedi cefnogi'r rheiny sydd wedi dioddef o'r clefyd dychrynlyd hwn a'u teuluoedd ac wedi achub bywydau di-rif.

Diolch i'ch ymdrechion ac i ddyfalbarhad ac aberth ein holl ddinasyddion, mae'r gyfradd heintio Covid-19 yng Nghaerdydd bellach ar lefel isel. Mae nifer fach o achosion positif newydd bob dydd, mae canran y profion positif oddeutu 0.4% ac mae ein Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu lleol bellach ar waith ac yn gweithio'n dda. Dros yr wythnosau nesaf bydd y cyfnod cloi yn parhau i lacio, bydd bywyd y ddinas a'n gwasanaethau cyhoeddus yn parhau â'u llwybr yn ôl i ffurf o normalrwydd a bydd llawer ohonom yn cymryd saib haeddiannol cyn mis Medi.

Ond er yr holl gynnydd yr ydym wedi'i wneud, rydym am bwysleisio nad ydym yn bendant wedi dod allan o'r argyfwng hwn eto. Mae llawer nad ydym yn ei wybod o hyd am Covid-19, gan gynnwys effaith tywydd oerach neu o gylchredeg â'r ffliw tymhorol, hyd yr imiwnedd naturiol neu ysgogedig neu'r union amserlen pan fydd brechlyn neu driniaeth effeithiol ar gael. Rydym yn gwybod, fodd bynnag, bod Covid-19 yn parhau i fod yn glefyd marwol, yn enwedig i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Ac felly, rhaid i'n hymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â'r clefyd hwn barhau. Rhaid i bob un ohonom ni barhau i chwarae ein rhan i gadw'r cyfraddau heintio'n isel yng Nghaerdydd, drwy gadw pellter corfforol, drwy olchi dwylo'n rheolaidd a thrwy ofalu amdanom ein hunain a'r rheini sydd mewn mwy o berygl. Fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, byddwn yn defnyddio misoedd yr haf i gynllunio gyda'n gilydd – ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus – fel ein bod yn y lle gorau posibl i ymateb i'r pwysau a'r heriau a ddaw yn sgil yr hydref a'r gaeaf.

Felly diolch unwaith eto, a dymunwn haf diogel a phleserus i chi i gyd,

Yn gywir,

Charles Janczewski



Is-Gadeirydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Caerdydd a Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro